Pwyllgorau Myfyrwyr-Staff - Canllaw Cyflym

Egwyddorion cyson. Arfer hyblyg.

Mae'r dull a wellwyd ar gyfer PMS wedi'i lunio gan adborth gan staff, myfyrwyr a chynrychiolwyr. Nid yw'n ymwneud â disodli PMS, ond yn hytrach cryfhau'r hyn sydd eisoes yn gweithio - mân newidiadau, nid chwyldro.

Y nod yw meddwl am y PMS fel mwy na chyfarfod. Mae'n broses barhaus ar gyfer llais myfyrwyr: creu cyfleoedd ystyrlon i fyfyrwyr roi adborth, sicrhau cyfranogiad cynrychiolwyr cwrs fel cysylltwyr canolog, ymateb i faterion lle bo modd, a sicrhau y gall myfyrwyr weld beth sydd wedi digwydd o ganlyniad i hynny.

Mae'r prif egwyddorion fel a ganlyn:

Cymuned, nid pwyllgor • Wedi'i wreiddio, ond yn dal i fod dan arweiniad myfyrwyr • Cynrychiolwyr cwrs fel cysylltwyr canolog • Arfer hyblyg ar gyfer gwahanol garfannau • Adborth trwy gydol y flwyddyn • Cau'r ddolen adborth • Partneriaeth a chyd-adeiladu • Cynnwys lleisiau llai nad ydynt i'w clywed yn aml

Yr hyn sydd angen i chi ei wneud

Adborth → Cynnal → Cofnodi → Cyflwyno → Adborth yn ôl

1. **Adborth**

Creu cyfleoedd i fyfyrwyr rannu eu profiad.

Defnyddiwch ddull sy'n gweithio i'ch myfyrwyr a mynnu cyfranogiad cynrychiolwyr cwrs lle bynnag y bo modd i helpu â chasglu, gwirio o ran synnwyr a chynrychioli adborth.

2. **Cynnal**

Dylech gynnal eich proses PMS bob tymor.

Nid oes angen i hwn fod yn gyfarfod pwyllgor traddodiadol bob amser. Yn dibynnu ar y cwrs neu'r garfan, gallai hyn gynnwys:

PMS traddodiadol • PMS ar-lein/hybrid • Adborth dosbarth wedi'i gynnwys • Wythnos adborth • Gweithgor myfyrwyr • Arolwg + trafodaeth • Grŵp ffocws/sesiwn thema

Yr hyn sy'n bwysig yw trafodaeth ystyrlon o adborth myfyrwyr.

3. **Cofnodi**

Cadwch gofnodion neu gofnod ysgrifenedig cyfatebol o'r adborth a drafodwyd, yr ymatebion a'r camau gweithredu.

Lle gellir datrys mater yn y fan a'r lle, dylai staff wneud hynny a chofnodi'r ymateb yng nghofnod y PMS. Lle mae mater yn benodol i'r cwrs neu'r ddisgyblaeth ac mae angen camau gweithredu pellach, dylai staff gysylltu â'r rhanddeiliad priodol i fynd i'r afael â'r pryder. Pan fo mater y tu allan i reolaeth leol neu uniongyrchol, neu'n adlewyrchu thema ehangach sy'n codi dro ar ôl tro, dylid ei gofnodi'n glir yng nghofnodion y PMS a, lle bo'n briodol, ei godi trwy lwybrau sy'n bodoli eisoes.

Mae hyn yn helpu i nodi problemau ehangach wrth leihau ceisiadau dyblyg a gwaith dilynol ar draws y Brifysgol.

4. **Cyflwyno**

Cyflwynwch gofnod o bob PMS trwy'r Ffurflen Microsoft ar gyfer PMS o fewn pythefnos i'r PMS gael ei gynnal.

Mae'r Ffurflen yn cofnodi'r Gyfadran, yr Ysgol, dyddiad y PMS, y dull cyflwyno, cyfranogiad cynrychiolwyr cwrs a chyd-destun perthnasol, ochr-yn-ochr â chofnod y PMS.

Ffurflen Cyflwyno Cofnodion Pwyllgor Myfyrwyr-Staff (PMS) 2026-27
https://forms.cloud.microsoft/e/pgMsWE5k5i

5. **Adborth yn ôl**

Dywedwch wrth y myfyrwyr beth ddigwyddodd o ganlyniad i'w hadborth.

Gall hynny gynnwys:

Rydym wedi gwneud hyn • Rydym yn gwneud hyn • Mae hyn wedi cael ei uwchgyfeirio • Mae hyn yn cael ei adolygu • Allwn ni ddim gwneud hyn, a dyma pam

Lle bo modd, rhowch ddiweddariad yn ystod y cyfnod addysgu perthnasol ac edrychwch yn ôl ar adborth a chamau gweithredu blaenorol yn y PMS nesaf, fel bod pob tymor yn cysylltu â'r nesaf.

Beth sy'n digwydd ar ôl cyflwyno?

Bydd Undeb y Myfyrwyr yn defnyddio cofnodion y Pwyllgor Myfyrwyr-Staff i nodi themâu a materion sy'n codi dro ar ôl tro, ac i gynnig cymorth i gynrychiolwyr cwrs ac Ysgolion. Hefyd at ddibenion ceisio gwybodaeth neu gyngor ar themâu ehangach nad ydynt yn academaidd lle bo'n briodol, a chyfrannu at adrodd ar lefel y Gyfadran a'r Brifysgol.

Mae hyn hefyd yn cryfhau tystiolaeth o lais myfyrwyr, cyfranogiad, gweithredu, uwchgyfeirio, a dysgu sefydliadol ar gyfer gofynion ymgysylltu â dysgwyr MEDR.